



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.gov.wales](http://www.gov.wales)

# **Fframwaith Datblygu Cenedlaethol**

## **Digwyddiadau Ymgysylltu**

**Ionawr / Chwefror 2017**

## **Cofnod o Ddigwyddiadau**

**Gorffennaf 2017**

## Cynnwys

### Adran

### Dudalen

- |   |                                |      |
|---|--------------------------------|------|
| 1 | Cyflwyniad                     | 3-4  |
| 2 | Pwrpas Digwyddiadau Ymgysylltu | 5    |
| 3 | Cofnod o Faterion a Drafodwyd  | 6-30 |

### Atodiadau

- |   |                                   |                 |
|---|-----------------------------------|-----------------|
| A | Strwythur Digwyddiadau Ymgysylltu | 32-47           |
| B | Mynychwyr                         | 48-53           |
| C | Mapiau                            | dogfen ar wahân |

## **1 Cyflwyniad**

1.1 Mae Llywodraeth Cymru yn paratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru (FfDC). Bydd y FfDC yn gynllun datblygu cenedlaethol 20 mlynedd a bydd yn disodli'r Cynllun Gofodol Cymru presennol.

1.2 Rôl y FfDC fydd:

- nodi ble mae angen twf a seilwaith o bwysigrwydd cenedlaethol a sut all y system gynllunio - yn genedlaethol, rhanbarthol a lleol - ei gyflawni;
- pennu cyfeiriad ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol a chynorthwyo penderfyniadau ar Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol;
- bodoli ochr yn ochr â Pholisi Cynllunio Cymru er mwyn nodi polisiâu cynllunio Llywodraeth Cymru; ac
- ategu strategaethau economaidd, trafnidiaeth, amgylcheddol, tai, ynni a diwylliannol cenedlaethol a sicrhau y gellir eu cyflawni drwy'r system gynllunio.

1.3 Yn ystod camau cynnar datblygu'r FfDC, roedd Llywodraeth Cymru yn awyddus i glywed gan amrywiaeth eang o randdeiliaid mewn perthynas â'r materion y dylai'r FfDC ymdrin â hwy. Cynhaliwyd pum Digwyddiad Ymgysylltu:

**31 Ion 2017** Parc Y Scarlets, Llanelli

**2 Chwe 2017** Neuadd y Ddinas, Caerdydd (am)

**2 Chwe 2017** Neuadd y Ddinas, Caerdydd (pm)

**7 Chwe 2017** Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno

**9 Chwe 2017** Gwesty Royal Oak, Y Trallwng

- 1.4 Mae'r ddogfen hon yn gofnod o'r digwyddiadau hynny a'r materion a godwyd ar draws Cymru.

## **2 Pwrpas Digwyddiadau Ymgysylltu**

2.1 Trefnwyd y digwyddiadau hyn er mwyn:

- codi ymwybyddiaeth o'r FfDC;
- casglu safbwyntiau ar y materion y dylai'r FfDC ymdrin â hwy;
- amlygu'r Alwad am Dystiolaeth a Phrosiectau; a
- rhoi cyfle i bobl ofyn cwestiynau i swyddogion Llywodraeth Cymru.

2.2 Mae Datganiad Cyfranogiad Cyhoeddus yn ymgorffori'r egwyddor o ymgysylltu yn natblygiad yr FfDC. Mae'n bwysig bod pobl yn cael cyfle i siapia sut mae'r FfDC yn cael ei ddatblygu cyn dechrau'r camau ymgynghori ffurfiol.

2.3 Roedd y digwyddiadau yn cefnogi'r Alwad am Dystiolaeth a Phrosiectau a gynhaliwyd rhwng 7 Rhagfyr 2016 a 7 Mawrth 2017, ac a roddodd gyfle i drafod a chydweithredu er mwyn clustnodi materion. Roedd yr Alwad am Dystiolaeth a Phrosiectau yn gyfle i anfon cyflwyniadau mwy ffurfiol wedi'u hategu gan dystiolaeth.

2.4 Bydd y materion a godwyd yn y 5 digwyddiad yn hysbysu datblygu'r papur Materion, Opsiynau a'r Opsiwn a Ffafrir fydd yn destun ymgynghoriad yn ystod cam nesaf proses y FfDC. Bydd yr adroddiad hwn ar y digwyddiadau yn cael ei gynnwys fel rhan o gronfa dystiolaeth y FfDC.



### 3. Cofnod o Faterion a Drafordwyd

- 3.1 Mae'r adran hon yn gofnod o'r materion a godwyd yn y 5 digwyddiad.
- 3.2 Mae'r materion a godwyd wedi cael eu grwpio yn ôl themâu cyffredin. Mae hynny'n helpu i roi trosolwg ac i glustnodi materion allweddol. Fel y gellir gweld isod, mae yna gysylltiadau amlwg rhwng gwahanol faterion, ac mae'n bwysig eu bod yn cael eu hystyried yn gyfunol yn ogystal â fel grwpiau unigol o faterion.
- 3.3 Y diben yn ystod y cam hwn yw crynhoi'r materion a godwyd. Nid ydynt yn cael eu hasesu na'n blaenoriaethu. Fel y gellir gweld, roedd yna faterion ble na chafwyd consensws cyffredin, a nodir y gwahanol safbwyntiau yma. Bu i gyflwyniadau'r digwyddiadau bwysleisio nad oes yna atebion anghywir, ac yn ystod y cam hwn roedd yn bwysig bod pawb yn teimlo'n rhydd i nodi'r hyn yr oeddent yn teimlo oedd yn fater allweddol ar gyfer y FfDC.

#### Cysylltedd Digidol

- 3.4 Codwyd mater cysylltedd digidol ym mhob un o'r digwyddiadau, ac mae'n cynrychioli mater i Gymru gyfan. Mae'r materion allweddol yn cydnabod pwysigrwydd cysylltedd symudol a digidol ynddynt eu hunain, yn ogystal â'u rôl ehangach mewn cymdeithas fodern. Nodwyd bod cymunedau, llygredd, tagfeydd traffig a thwristiaeth yn gysylltiedig â chysylltedd digidol.
- 3.5 Pwynt allweddol a nodwyd oedd y byddai FfDC fyddai wedi cael ei baratoi 20 mlynedd yn ôl wedi cael anhawster rhagamcanu'r cysylltedd digidol sydd ei angen arnom ac yr ydym yn dibynnu arno heddiw. Bydd hi'r un mor anodd rhagamcanu ble fydd technoleg ddigidol ymhen 20 mlynedd arall. Dylai'r FfDC ddarparu fframwaith i gynorthwyo cyflenwi technoleg newydd a sicrhau y gall y system gynllunio fod yn ymatebol i ofynion newidiol, technolegau a gofynion seilwaith.



#### Materion Allweddol

- Dylai'r FfDC fynd i'r afael â chysylltedd symudol a band eang gwael mewn ardaloedd gwledig.
- Dylai'r FfDC hwyluso seilwaith digidol cyflym, dibynadwy a modern, sy'n

hanfodol er mwyn cynnal economi ddeinamig.

- Dylai'r FfDC gydnabod y gall technoleg band eang leihau'r angen i deithio; gynyddu cynhyrchiant; cefnogi trefniadau gweithio mwy hyblyg; lleihau arwahanrwydd i'r rhai hynny sy'n llai abl i deithio; a lleihau tagfeydd traffig a llygredd.
- Dylai'r FfDC gydnabod y gall technoleg band eang gynorthwyo cymunedau sydd â llai o gysylltiad â gwasanaethau ffisegol, adnoddau diwylliannol ac adloniant. Mae cymunedau sydd â llai o gysylltiad â chyfryngau modern ac adnoddau TG yn llefydd llai deniadol i fyw ynddynt.
- Mae'n bwysig bod y FfDC yn cydnabod bod ymwelwyr sy'n ymweld â Chymru yn disgwyl gallu cael mynediad i wasanaethau symudol a band eang.
- Dylai'r FfDC sicrhau bod y system gynllunio yn ymatebol i dechnoleg a chyfathrebu newydd. Mae'n rhaid darparu buddion positif technolegau newydd yn gyflym ar draws Cymru gyfan.

## **Datgarboneiddio ac Ynni**

- 3.6 Roedd datgarboneiddio ac ynni yn faterion a godwyd ar draws Cymru gyfan. Mae yna ymwybyddiaeth gref o'r heriau a'r cyfleoedd sydd o'n blaenau ac mae gan brosiectau megis Lagŵn Llanwol Abertawe a Wylfa broffiliau uchel, sy'n helpu i annog trafodaeth.



- 3.7 Cydnabyddir bod cynhyrchu ynni a datgarboneiddio yn faterion cydberthnasol a chymhleth. Cynhaliwyd trafodaethau yn seiliedig ar wybodaeth ynghylch yr her o fodloni ein hanghenion ynni tra'n cydnabod y gallai gwahanol opsiynau arwain at ganlyniadau cymdeithasol, economaidd a/neu amgylcheddol.
- 3.8 Nodwyd bod datgarboneiddio yn fater ehangach na chynhyrchu ynni. Nodwyd bod trafndiaeth, patrymau aneddiadau, tai a ffactorau economaidd yn faterion pwysig ar gyfer y FfDC a'r system gynllunio wrth ystyried amcanion datgarboneiddio.

## **Materion Allweddol**

- Dylai'r FfDC ddarparu fframwaith cenedlaethol er mwyn cynorthwyo cyflenwi ynni adnewyddadwy.

## Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

- Dylai'r FfDC bennu targedau ynni adnewyddadwy cenedlaethol.
- Dylai'r FfDC roi sicrwydd i gynigion mewn perthynas ag ynni adnewyddadwy. Dylai glustnodi safleoedd unigol a'r cysylltiadau grid fydd eu hangen er mwyn eu cynnal.
- Dylai'r FfDC gefnogi trydaneiddio rhwydweithiau trafndiaeth yn cynnwys galluogi darparu pwyntiau gwefru ar gyfer cerbydau trydan.
- Dylai'r FfDC gynnwys safleoedd strategol (tebyg i NCT 8). Gellid cynnwys elfennau gofodol o bolisïau cynllunio presennol, fel yr SSAu, yn uniongyrchol yn y FfDC.
- Mae NCT 8 wedi dod i ddiwedd ei oes ac mae'r FfDC yn rhoi cyfle i ni ailfeddwl ynglŷn â sut ydym yn bodloni ein hanghenion ynni. Dylid adolygu Ardaloedd Chwilio Strategol. Dylai polisi newydd fod yn destun SA/SEA llawn er mwyn sicrhau bod yr holl effeithiau'n cael eu deall a'u hasesu'n iawn.



- Mae'r Ardaloedd SSA yn NCT 8 yn fethiant llwyr. Ni fu iddynt gydnabod materion lleol mewn perthynas â bioamrywiaeth, cadw dŵr mewn ucheldiroedd, tirluniau hanesyddol a'r tirluniau sydd heb eu difetha sy'n denu twristiaid i Gymru ac sy'n allweddol i lesiant. Ni ddylai'r FfDC eu mabwysiadu.
- Dylai'r FfDC nodi ble ydym am gynhyrchu ein hynni.
- Dylai'r FfDC alinio cynhyrchu ynni â thwŵ.
- Dylai'r FfDC gefnogi potensial ynni llanwol.



## Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

- Dylai'r FfDC gefnogi tanwydd hydrogen ac ystyried sefydlu rhwydwaith tanwydd hydrogen ar draws Cymru.
- Dylai'r FfDC gefnogi potensial ynni solar. Gallai hynny gynnwys cyfarwydddeb genedlaethol mewn perthynas â'r gofyniad am deils solar ar ddatblygiadau newydd.
- Dylai'r FfDC sefydlu'r achos 'angen' am seilwaith newydd fel yn Lloegr.
- Dylai'r FfDC gefnogi lagŵn llanwol Abertawe. Dylai hefyd ystyried y prosiect yn ei gyd-destun ehangaf posibl, ac fel catalydd posibl ar gyfer mathau eraill o ddatblygiadau.
- Mae storio ynni yn fater cynyddol bwysig, a dylai'r FfDC ddarparu fframwaith ar gyfer datrysiadau storio yn ogystal â chynhyrchu a chysylltiadau grid.
- Dylai'r FfDC gydnabod y gall y sector ynni ategu twf economaidd. Mae'n sector sydd â'r potensial i greu gyrfaoedd ac nid 'swyddi' yn unig.
- Dylai'r FfDC ystyried cynhyrchu ynni ar raddfa fawr a bach a darparu fframwaith sy'n gallu cefnogi gwahanol ddatrysiadau ar gyfer gwahanol ardaloedd.
- Dylai'r FfDC ystyried sut y gall polisi ynni greu buddion lleol a sut y gellir trosglwyddo buddion cynhyrchu lleol i gymunedau lleol. Mae ynni yn ddrytach mewn ardaloedd gwledig.
- Dylai'r FfDC gefnogi datblygu lagwnau llanwol.
- Nid yw Gorsaf Bŵer Niwclear Newydd Wylfa yn mynd yn ddigon pell o ran y buddion ehangach. Dylai'r FfDC sicrhau y gwneir y mwyaf o'r buddion posibl ar gyfer yr ardal ehangach. Mae'n brosiect o arwyddocâd cenedlaethol.
- Dylai'r FfDC ystyried clustnodi Ynys Môn fel ynys ynni.
- Dylai'r FfDC ystyried safbwynt Cymru ynghylch ffracio.
- Mae'n bwysig deall y canlyniadau anfwriadol allai ddeillio o bolisiâu datgarboneiddio a chynllunio yn unol â hynny.
- Dylai'r FfDC sicrhau bod y system gynllunio wedi'i halinio er mwyn ymateb i ofynion COP21.
- Dylai'r gwaith a wneir gan Awdurdodau Cynllunio Lleol ar asesiadau o ynni adnewyddadwy, sy'n nodi potensial ynni solar, ynni gwynt a rhwydweithiau gwresogi ardaloedd, hysbysu'r FfDC.

## Economi (yn cynnwys Twristiaeth, Economi Gwledig ac Amaethyddiaeth)

- 3.9 Nodwyd pwysigrwydd economi gref ym mhob un o'r digwyddiadau ar draws Cymru. Er y mynegwyd pryderon mewn perthynas â chryfder yr economi, yn arbennig o'i gymharu â chenhedloedd eraill, roedd yna deimlad cyffredinol bod yna nifer o gyfleoedd ar gael i economi Cymru. Yn hytrach na chanolbwyntio ar 'enillwyr', dylai'r FfDC amcanu at ddarparu amgylchedd ar gyfer canfod gwahanol ddatrysiadau ac ar gyfer cefnogi gwahanol gyfleoedd.
- 3.10 Un o'r materion a godwyd amlaf oedd pwysigrwydd twristiaeth i Gymru. Roedd yna deimlad cryf bod twristiaeth yn un o sectorau'r economi sy'n berthnasol i Gymru gyfan; ei fod yn bwysig i ardaloedd gwledig a threfol fel ei gilydd; bod ganddo'r cyfle i ehangu; a'i fod yn (o'i gymharu â sectorau mawr eraill yr economi) cadw'r refeniw mae'n ei gynhyrchu yng Nghymru. Ystyriwyd hefyd bod yna gysylltiad cryf rhwng twristiaeth a nifer o ddeilliannau eraill y system gynllunio. Dylanwadir ar dirluniau, cysylltiadau trafnidiaeth, treftadaeth adeiledig, diwylliant, iaith, llefydd diddorol, digwyddiadau ac yn y blaen gan y system gynllunio, ac mae hynny yn ei dro yn effeithio ar dwristiaeth. Gellir ystyried bod diwydiant twristiaeth iach yn gynnwys nifer o weithgareddau ac ymyriadau llwyddiannus mewn mannau eraill.
- 3.11 Mynegwyd yn yr holl ddigwyddiadau na ddylai'r FfDC fabwysiadu ymagwedd 'unffurf' tuag at gefnogi twf economaidd. Ni ddylai'r FfDC ofni hyrwyddo ymagweddau gwahanol tuag at ardaloedd gwledig a threfol pe byddai hynny'n briodol.
- 3.12 Ystyriwyd bod y ddinas-ranbarthau newydd yn cynnig y potensial i ailfeddwl yn sylweddol ynghylch sut ydym yn ystyried materion rhanbarthol; a dylem feddwl yn llawer ehangach na ffiniau awdurdodau lleol wrth wneud penderfyniadau. Ystyriwyd ei bod yn hanfodol bod y FfDC yn cefnogi'r ymagwedd dinas-ranbarthau ac yn sicrhau bod y system gynllunio'n rhan ganolog o'r broses benderfynu.



### Materion Allweddol

- Mae angen strategaeth ddiwydiannol hirdymor ar gyfer Cymru a dylai cefnogi ei gweithredu fod yn rhan o rôl y FfDC.
- Mae'n rhaid i'r FfDC ystyried ble fyddwn yn masnachu yn y dyfodol a sut

fydd ein nwyddau yn cyrraedd yno. Mae'n rhaid i'r system gynllunio gefnogi cyflawni'r seilwaith economaidd/trafnidiaeth hwn.

- Dylai'r FfDC ganolbwyntio ar dwristiaeth fel un o'r cyfleoedd economaidd allweddol ar gyfer Cymru gyfan.
- Wrth ystyried cynigion ar gyfer y FfDC, mae'n rhaid i'w heffeithiau ar dwristiaeth gael eu deall a'u hasesu'n llawn. Mae'n bwysig nad yw bwrw ymlaen ag un amcan yn niweidio'r sector twristiaeth yn anfwriadol.



- Mae'n allweddol bod Strategaeth Twristiaeth Llywodraeth Cymru yn hysbysu'r FfDC.
- Dylai'r FfDC wella cysylltiadau trafndiaeth ar hyd Arfordir y Gorllewin. Byddai hynny'n cynorthwyo twristiaeth ac yn hyrwyddo cyfleoedd economaidd.
- Mae addysg a sgiliau yn sylfaenol gysylltiedig â pherfformiad economaidd. Dylai'r FfDC gefnogi pob cam sy'n amcanu at wella'r rhain.
- Dylai'r FfDC sicrhau bod y system gynllunio yn blaenoriaethu swyddi yn ogystal â thai.
- Mae yna raniad economaidd rhwng Gogledd a De Cymru. Dylai'r FfDC amcanu at fynd i'r afael â hynny a sicrhau bod y Gogledd yn derbyn buddsoddiad a seilwaith newydd er mwyn cau'r bwlch.
- Dylai'r FfDC archwilio dull yr Alban o gael strategaeth economaidd wedi ei

diffinio'n glir, sy'n canolbwyntio ar arbenigedd doeth a chefnogi amaethyddiaeth a choedwigaeth.

- Dylai'r FfDC gydnabod bod cysylltiadau trafnidiaeth cryf yn hanfodol i economi gref .
- Dylai'r FfDC bennu targed twf economaidd (targed twf GVA) a thai cyffredinol (lefel twf aelwydydd) ar gyfer Cymru.
- Mae cysylltiadau dwyrain-gorllewin yng Ngogledd a De Cymru yn sylfaenol bwysig i economi Cymru. Dylai'r FfDC sicrhau bod buddsoddi'n cael ei ganolbwyntio ar gynnal ac uwchraddio'r rhain.
- Mae'r cysylltiadau rhwng y gogledd a'r de yn wael. Mae'n rhaid i'r FfDC ystyried sut y gellir gwella'r rhain er mwyn cryfhau cysylltiadau economaidd.
- Dylai'r FfDC gydnabod y gall y sector ynni ategu twf economaidd. Mae'n sector sydd â'r potensial i greu gyrfaoedd ac nid 'swyddi' yn unig.
- Mae'n rhaid i'r FfDC ddarparu gweledigaeth a strategaeth ar gyfer yr economi wledig. Mae'n rhaid i'r system gynllunio gydnabod y bydd angen atebion gwahanol ar gyfer rhai materion. Dylai cydnerthedd gwledig fod yn thema allweddol yn y FfDC.
- Dylai'r FfDC gefnogi twf sy'n creu gyrfaoedd ac nid nifer o swyddi yn unig. Mae hynny'n arbennig o wir yn y Gymru wledig ble mae pobl ifanc yn gorfod gadael er mwyn datblygu eu gyrfaoedd.
- Mae'n rhaid i'r FfDC gefnogi tyfu'r economi o Gymru ei hun yn hytrach na dibynnu ar fewnfuddsoddiad nad oes ganddo wreiddiau yng Nghymru yn y pen draw.
- Yn aml mae gwaddol diwydiant trwm yn cael ei ystyried fel mater lleol. Dylai'r FfDC ystyried yr ardaloedd y mae'r materion hyn yn effeithio arnynt yn gyfunol yn hytrach nag yn unigol, a mabwysiadu ymagwedd genedlaethol tuag at ymdrin â'r mater.
- Dylai'r FfDC gefnogi Strategaethau Lleol Economaidd a gwaith Byrddau Rhanbarthol Economaidd a chael ei hysbysu ganddynt.
- Mae'n rhaid i'r FfDC gefnogi canol trefi cydnerth a sicrhau bod datblygiadau newydd yn eu cefnogi.
- Dylai'r FfDC daclo'r anghydbwysedd economaidd ar draws Gogledd Cymru.
- Dylai'r FfDC gydnabod yr holl Ardaloedd Menter a rhoi statws iddynt yn y system cynllunio datblygu yng Nghymru.

- Er mwyn cefnogi amcanion yr Iaith Gymraeg, dylai'r FfDC gefnogi cyfleoedd economaidd mewn ardaloedd Cymraeg. Pobl yn gadael i chwilio am waith yw un o'r prif broblemau sy'n effeithio ar yr iaith.
- Mae'r M4 a'r A55 yn goridorau twf allweddol. Dylai'r FfDC wella a gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer y coridorau yma.
- Dylai'r FfDC gefnogi'r sector amaethyddol a sicrhau y gall ymateb i heriau Brexit. Bydd arallgyfeirio gwledig yn fater allweddol yn y dyfodol ac mae'n rhaid i ni baratoi ar gyfer hynny nawr.
- Mae'n rhaid i'r FfDC helpu i greu sylfaen economaidd ar gyfer Canolbarth Cymru.
- Mae'n rhaid i'r FfDC sicrhau bod y system gynllunio yn cefnogi echdynnu a chyflenwi'r mwynau angenrheidiol er mwyn darparu twf ffisegol a seilwaith newydd.
- Dylai'r FfDC ystyried rôl prifysgolion. Maent yn fusnesau sylweddol ynddynt eu hunain, maent yn gyfrifol am lawer o adeiladu a datblygiadau newydd, ac mae ganddynt rôl bwysig yn yr economi gwybodaeth.
- Mae'n rhaid i'r FfDC gefnogi cyfleoedd hunangyflogaeth. Gellir adeiladu cydnwethedd cryf ar economïau sydd â lefelau uchel o weithgarwch economaidd.
- Dylai'r FfDC ystyried adfer Camlas Trefaldwyn. Byddai'n golygu addasu priffyrdd cenedlaethol. Byddai buddion adfer y gamlas yn eang, a gallai arwain at fuddion economaidd sylweddol .

## **Llefydd Llwyddiannus**

3.13 Thema bwysig a ddaeth i'r amlwg yn y digwyddiadau oedd rôl y system gynllunio o ran creu llefydd llwyddiannus. Yn ogystal â'r angen i ganolbwyntio ar dai, trafnidiaeth, economi, iaith ac yn y blaen ynddynt eu hunain, teimlwyd ei bod yr un mor bwysig deall y berthynas rhwng y gwahanol agweddau yma a'r llefydd maent yn eu creu.



3.14 Mynegwyd y dylai'r system gynllunio ateb y dasg o siapiau llefydd a sicrhau bod datblygiadau newydd yn creu llefydd sy'n gweithio ac y mae pobl eisiau byw ynddynt. Beirniadwyd bod y system gynllunio wedi canolbwyntio gormod yn y gorffennol ar faterion megis darparu nifer o dai a'i bod wedi colli golwg ar y rôl sydd gan ddatblygiadau newydd o ran creu cymunedau newydd.

## Materion Allweddol

- Dylai'r FfDC ganolbwyntio ar 'llefydd' a sicrhau bod y cysyniad o greu cymunedau cysylltiedig, deniadol, cydnerth, iach y gellir byw ynddynt yn rhan ganolog o'r system gynllunio.
- Dylai'r FfDC gydnabod bod y cymunedau yr ydym yn byw ynddynt yn rhan annatod o'n llesiant.
- Dylai'r FfDC sicrhau bod effaith datblygiadau newydd ar gymunedau yn cael ei ddeall yn iawn.
- Mae arwahanrwydd yn fater y gall y system gynllunio helpu i fynd i'r afael ag ef. Mewn ardaloedd trefol a gwledig mae yna gymunedau ynysig, a dylai'r FfDC nodi sut y dylai'r system gynllunio ymdrin â hynny.
- Dylai'r FfDC nodi'n glir yr egwyddorion sy'n bwysig er mwyn creu llefydd da a sicrhau bod y system gynllunio yn cyflawni hynny ar bob lefel.
- Dylai'r FfDC ddiffinio egwyddorion, nid prosiectau.
- Dylai'r FfDC greu llefydd sy'n cefnogi ffyrdd o fyw iach a phositif a gwella llesiant pobl.

## Tai a Newid Cymdeithasol

3.15 Mae rôl y system gynllunio o ran hwyluso darparu tai newydd wedi cael ei hen gydnabod. Yn achos mathau penodol o faterion, megis twf economaidd, mae'r system gynllunio yn un o nifer o lifrau all effeithio ar ddeilliannau, ac mae'n annhebygol mai hwnnw yw'r lifer mwyaf arwyddocaol. Yn achos adeiladu tai, mae rôl y system gynllunio yn fwy uniongyrchol ac yn haws ei deall. Cynlluniau datblygu yw un o'r prif ffactorau sy'n dylanwadu ar leoliad a maint datblygiadau tai.



3.16 O gofio hynny, tai oedd un o'r prif faterion a godwyd yn y 5 digwyddiad. Ni chafwyd consensws mewn perthynas â rôl y FfDC. Roedd rhai yn credu y dylai'r FfDC fod yn rhagnodol, gan bennu targedau tai a phennu lleoliadau ar gyfer datblygu. Roedd eraill y credu mai'r lefel leol oedd y platfform mwyaf priodol ar gyfer asesu anghenion tai a phennu lleoliadau.



- 3.17 Roedd natur newidiol cymdeithas yn fater a godwyd ar draws Cymru. Gallai poblogaeth sy'n heneiddio, yn gyfun â phobl ifanc yn gadael rhannau gwledig Cymru, greu cymunedau â lefelau sylweddol o boblogaethau hŷn, ac roedd ansicrwydd ynghylch beth allai hynny olygu. Hefyd trafodwyd a fyddai'r math o dai teuluol a ffafrir gan adeiladwyr tai mawr, yn darparu'r stoc tai sydd ei angen arnom er mwyn cartrefu poblogaeth hŷn.
- 3.18 Mynegwyd pwynt pwysig mewn perthynas â niferoedd tai. Roedd yna sylweddoliad eglur (a) bod angen tai newydd mewn rhannau o Gymru a (b) yn achos y rhai oedd wirioneddol angen tai, mae'r prinder tai sydd ar gael yn argyfwng. Ochr yn ochr â'r safbwyntiau yma, cafwyd trafodaethau diddorol ar y canlyniadau negyddol allai ddeillio o ganolbwyntio'n ormodol ar niferoedd tai.

## **Mater Allweddol**

- Mae'n rhaid i'r FfDC nodi ble mae angen tai newydd ar draws Cymru a beth ddylai maint y twf fod.
- Dylai'r FfDC bennu targedau tai cenedlaethol.
- Gall y FfDC a thargedau cenedlaethol helpu i ddadwleidyddu darparu tai ar lefelau lleol a rhanbarthol. Gall penderfyniadau lleol adlewyrchu materion gwleidyddol lleol yn hytrach nag ymateb i anghenion lleol.
- Os mai amcan Llywodraeth Cymru yw cynyddu adeiladu tai, dylai roi'r dasg i'r FfDC gyflawni hynny.
- Mae'n rhaid i'r FfDC sicrhau bod atebolrwydd democrataidd lleol yn cael ei gynnal. Ymdrinnir yn well â materion tai lleol a'r angen amdanynt ar lefel lleol a thrwy gynlluniau datblygu lleol.
- Dylai'r FfDC sicrhau bod tai yn cael ei ddeall yn ei gyd-destun llawn ac ni ddylai ganolbwyntio ar niferoedd yn unig. Mae'n bwysig creu cymunedau ac nid ystadau yn unig. Yn aml, ni ystyri effaith tai newydd ar ysgolion, siopau a gwasanaethau.
- Dylai'r FfDC arenwi ardaloedd tai sylfaenol, eilaidd a thrydyddol ar draws Cymru. Byddai hynny yn darparu ffocws ar dwf.
- Dylai methiant y system gynllunio leol i ddelio â materion Sipsiwn/Teithwyr olygu bod y mater hwn yn cael ei esgoli i lefel genedlaethol a bod y FfDC yn ymdrin ag ef.
- Dylai'r FfDC bennu targed twf economaidd (targed twf GVA) a thai cyffredinol (lefel twf aelwydydd) ar gyfer Cymru.

- Dylai'r FfDC gael ei hysbysu gan yr ardaloedd ble mae adeiladwyr tai a buddsoddwyr yn dymuno adeiladu ynddynt. Byddai methu â gwneud hynny yn arwain at strategaeth ofodol na fydd yn cael ei chyflawni.
- Mae'n destun pryder sylweddol nad yw darparu tai newydd yn cael ei alinio ag anghenion y gymdeithas ar gyfer y dyfodol. Mae'n rhaid i'r FfDC ddelio â hyn.
- Mae gwahanol rannau o Gymru yn wynebu gwahanol heriau demograffig. Mae'n rhaid i'r FfDC sicrhau bod atebion gwahanol ar gael i daclo diboblogi yn y Gymru wledig a phrinder tai yn yr ardaloedd trefol, mwy.
- Nid oes gan adeiladwyr tai'r capasiti i godi niferoedd sylweddol o dai newydd ar yr un pryd yng Ngogledd a De Cymru. Ni ddylai'r FfDC ddisgwyl y bydd tai newydd yn cael eu codi yn awtomatig o ganlyniad i bennu niferoedd neu ardaloedd.
- Wrth ystyried lleoliad twf tai newydd, mae'n rhaid i'r FfDC sicrhau bod trafnidiaeth a chysylltedd yn cael eu hystyried yn llawn.
- Mae'r system cynllunio yn annog bancio tir. Mae safleoedd tai yn cael eu dyrannu at ddibenion prisio yn hytrach nac adeiladu tai newydd. Mae'n rhaid i'r FfDC ddelio â hyn.
- Mae'n rhaid i'r FfDC gydnabod bod natur y gymdeithas yn bwysig. Dylai Cymru fod yn lle braf i fyw ynddo yn hytrach na bod yn rhywle i wneud arian yn unig.
- Dylai'r FfDC ystyried y cysylltiadau ag ardaloedd ffiniol yn Lloegr. Er enghraifft, mae yna gyfleoedd yn Sir Drefaldwyn i gynnal twf er mwyn bodloni marchnad Bryste.

## **Trafnidiaeth a Chysylltedd**

- 3.19 O ran nifer o weithiau y codwyd ac y trafodwyd y mater, trafnidiaeth oedd y mater mwyaf sylweddol yn y 5 digwyddiad. O'i gymharu â materion eraill, trafnidiaeth yw'r mater a ddeallir orau mewn cyd-destun Cymru gyfan. Tra bod materion tai, er enghraifft, yn aml yn cael eu trafod ar lefel ranbarthol neu leol, mae'r materion mewn perthynas â thrafnidiaeth yn aml yn cael e mynegi yn nhermau cysylltiadau cenedlaethol gogledd-de, cysylltedd





rhanbarthol, llwybrau i Loegr neu gysylltiadau rhyngwladol.

- 3.20 Ceir profiad o drafnidiaeth bob diwrnod - yn dda a drwg - a phan gyfyd problemau, mae'r rheini yn amlwg iawn ac fe'u teimlir yn uniongyrchol. Mae'n wir hefyd bod pawb yng Nghymru yn rhannu'r un seilwaith trafnidiaeth.
- 3.21 Codwyd materion trafnidiaeth yn aml mewn perthynas ag amcanion allweddol eraill. Mae yna berthynas agos rhwng twf economaidd a thrafnidiaeth er enghraifft. Credwyd ei bod yn bwysig nad yw trafnidiaeth yn cael ei ystyried ar ei ben ei hun, ac nad yw'r FfDC yn amcanu at ymdrin â 'materion trafnidiaeth'. Yn hytrach, dylai'r FfDC ofyn yn barhaus "sut fyddai'r buddsoddiad hwn mewn trafnidiaeth yn cefnogi darparu amcanion eraill yn uniongyrchol?"
- 3.22 Roedd pwysigrwydd agosrwydd at ranbarthau cryf yn Lloegr yn thema gyffredin. Ystyriwyd bod hynny yn fantais bositif y dylid manteisio arni, a gwell cysylltiadau trafnidiaeth oedd y ffordd orau o gyflawni hynny. Ni ddylai'r FfDC ofni meddwl yn ehangach na Chymru os bydd hynny o fantais i ni, ac ni ddylai gwleidyddiaeth atal hynny.
- 3.23 Roedd y Metro arfaethedig yn Ne Cymru yn cael ei gydnabod fel cyfle arwyddocaol i daclo hen broblemau rhanbarthol, a dylai'r FfDC ei gefnogi. Hefyd, fel yn achos y themâu uchod, trafodwyd sut y dylai buddsoddiad mewn Metro gael ei ddefnyddio i daclo materion adfywio, cymdeithasol, tai, newid yn yr hinsawdd ac economaidd, ac mae'n rhaid i ni sicrhau nad ydym yn ystyried y themâu yma fel cynlluniau 'trafnidiaeth' yn unig. Yng Ngogledd Cymru, mae cynlluniau yn llai datblygedig, ond mae yna ddiddordeb amlwg mewn deall sut allai Metro helpu i gyflawni eu hamcanion.
- 3.24 Y pwynt olaf a amlygwyd yn gryf oedd y problemau trafnidiaeth sy'n effeithio ar y Gymru wledig. Teimlwyd y gallai trafodaethau am draffyrdd newydd, Metro a meysydd awyr achosi i faterion gwledig gael eu diystyru. Pwynt a fynegwyd yn rheolaidd oedd y byddai gwahanol rannau o Gymru angen gwahanol atebion. Mewn rhai rhannau o Gymru mae angen buddsoddiad newydd mewn ffyrdd, ac mae'n bwysig nad yw hynny yn cael ei anghofio yn y drafodaeth ehangach ar atebion trafnidiaeth gwahanol sydd eu hangen mewn mannau eraill.

## **Mater Allweddol**

- Mae'n rhaid i'r FfDC, fel cynllun cenedlaethol, gefnogi gwell cysylltiadau â Lloegr ar gyfer pob dull o drafnidiaeth.
- Mae'n rhaid i'r FfDC sicrhau bod cysylltiadau rhwng dinasoedd mawr ar draws y DU yn cael eu gwella .
- Mae Cymru yn agos iawn at rai o brif ranbarthau Lloegr. Mae Birmingham,

## Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Manceinion/Lerpwl, Bryste yn agos, a dylai'r FfDC ystyried sut all wneud y mwyaf o'n cysylltiadau â'r ardaloedd hyn.

- Mae maes awyr Caerdydd yn tanberfformio. Mae'n rhaid i'r FfDC ddarparu fframwaith ar gyfer gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd mae hyn yn ei gynnig, yn cynnwys gwella cysylltiadau trafnidiaeth i'r maes awyr.
- Dylai'r FfDC ystyried yr angen am faes awyr cenedlaethol newydd sydd wedi ei leoli'n well .
- Mae topograffeg Cymru a'r pellter rhwng y prif ardaloedd trefol yn y De a'r Gogledd yn rhwystrau sylweddol. Dylai'r FfDC ganolbwyntio ar gysylltiadau dwyrain-gorllewin yng Ngogledd a De Cymru a chydabod pwysigrwydd cysylltiadau â Lloegr.
- Dylai ystyriaethau ynghylch cysylltiadau dwyrain-gorllewin yng Ngogledd a De Cymru ganolbwyntio ar reilffyrdd yn ogystal â ffyrdd.



- Mae'r brif rwydwaith ffyrdd drwy Gymru yn siâp 'Y', gyda'r A470 yn rhannu i A470/A483. Dylai'r FfDC gefnogi datblygu hyn i fod yn 'X' gyda ffordd i Abertawe er mwyn gwella cysylltiadau.
- Mae cysylltiadau dwyrain-gorllewin wedi'u hen sefydlu yng Nghymru. Ni ddylai'r FfDC ganolbwyntio ar ddatblygu mwy ar y rhain ar draul cysylltiadau gogledd-de.
- Dylai trafnidiaeth gyhoeddus fod yn brif ffocws ar gyfer buddsoddiad cenedlaethol sylweddol.

## **Fframwaith Datblygu Cenedlaethol**

- Dylai'r FfDC sefydlu rhwydwaith trafnidiaeth cyhoeddus cenedlaethol.
- Dylai'r FfDC gefnogi Metro Gogledd Cymru.
- Dylai'r FfDC wneud y mwyaf o fuddion HS2. Mae HS2 yn cyrraedd Crewe yn cynrychioli cyfle sylweddol.
- Dylai'r FfDC gefnogi gwelliannau i'r cysylltiadau rheilffordd o Gaer i Gaerdydd, yn cynnwys trac dwbl mewn mannau a thrydaneiddio arwyddion.
- Mae'r cysylltiadau rhwng Gogledd a De Cymru yn wael, a dylai'r FfDC ddarparu fframwaith ar gyfer eu gwella.
- Mae porthladdoedd a harbws Cymru yn seilwaith cenedlaethol allweddol. Mae'n rhaid i'r FfDC sicrhau eu bod yn cael eu cefnogi. Maent yn cynrychioli ein pyrrh allweddol i'r byd mawr a byddant yn gynyddol bwysig wrth i berthnasoedd rhyngwladol newid yn y dyfodol.
- Mae'n rhaid ystyried atebion teithio actif pan fo'r FfDC yn ystyried materion trafnidiaeth. Dylai'r FfDC sicrhau bod seiclo a cherdded yn hysbysu sut mae Cymru yn tyfu ac yn newid.
- Mae'r rhwydwaith rheilffyrdd yn seilwaith cenedlaethol hanfodol ac mae iddo rôl allweddol o ran cefnogi twf, mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, ansawdd aer, anhygyrchedd, twristiaeth a newid y ffordd yr ydym yn cludo nwyddau a phobl ar draws Cymru. Mae'n rhaid i'r FfDC flaenoriaethu buddsoddi yn y rheilffyrdd.
- Dylai'r FfDC glustnodi cysylltiadau rheilffordd rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin a llwybrau mwy uniongyrchol rhwng Caergybi a Chaerdydd.
- Dylai'r FfDC wella cysylltiadau trafnidiaeth rhwng Aberystwyth a Chaerfyrddin.
- Dylai'r FfDC wella cysylltiadau trafnidiaeth ar hyd Arfordir y Gorllewin. Byddai hynny'n cynorthwyo twristiaeth ac yn hyrwyddo cyfleoedd economaidd.
- Dylai'r FfDC gefnogi a hwyluso trydaneiddio'r rheilffyrdd ar draws Cymru.
- Dylai prosiectau sylweddol y tu allan i Gymru, megis HS2, hysbysu'r FfDC.
- Dylai'r FfDC wella cysylltedd rhwng llwybrau cerdded a seiclo cenedlaethol a Llwybr Arfordir Cymru.
- Mae'r M4 a'r A55 yn goridorau twf allweddol. Dylai'r FfDC wella a gwneud y mwyaf o gyfleoedd ar gyfer y coridorau yma.


## Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

- Ni ellir gwahanu penderfyniadau a wneir ar seilwaith trafndiaeth oddi wrth effeithiau amgylcheddol a newid yn yr hinsawdd. Mae'n rhaid i broses FfDC gydnabod hynny a sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu hysbysu gan eu cyd-destun llawn.
- Mae'r A470 yn ffordd genedlaethol allweddol, a dylid buddsoddi ynddi er mwyn cynnig cyfleoedd economaidd yng Nghanolbarth Cymru.
- Mae'r A55 yn ffordd genedlaethol allweddol, a dylid buddsoddi ynddi er mwyn cynnig cyfleoedd economaidd yng Ngogledd Cymru.
- Mae trafndiaeth wledig yn broblem sylweddol ar draws Cymru a dylai'r FfDC sicrhau yr ymdrinnir â hynny.
- Dylai'r FfDC ddarparu fframwaith ar gyfer cefnogi a gwella cysylltiadau trafndiaeth ag Iwerddon ac Ewrop.
- Mae Metro De Cymru yn gyfle buddsoddi sylweddol, ac mae ganddo'r potensial i achosi newid ar draws ardal ranbarthol eang. Dylai'r FfDC sicrhau bod y system gynllunio yn cefnogi ei wireddu ac yn gwneud y mwyaf o'r buddion fydd yn deillio ohono.
- Nid yw'r cyfleoedd ar gyfer Canolbarth Cymru sy'n deillio o'i agosrwydd i Loegr yn cael eu gwireddu'n llawn. Dylai'r FfDC ystyried sut y gellir gwella'r cysylltiadau hyn, a sut all Canolbarth Cymru elwa o gyfleoedd economaidd ar draws y ffin.
- Dylai'r FfDC gefnogi ffordd ryddhau'r M4 a sicrhau y gwneir y mwyaf o'r cyfleoedd mae'n eu cynnig er mwyn cefnogi cyflawni amcanion eraill.
- Nid yw llwybr arfaethedig yr M4 yn cynnig cyfle ar gyfer datblygiad newydd ategol ar ei hyd, ac mae hynny'n ddiffyg sylweddol.
- Dylai proses y FfDC archwilio a oes gennym ddigon o gapasiti porthladdoedd amlwythi yng Nghymru, ac os nad oes, dylid darparu ar gyfer ehangu.
- Yn ogystal â darparu seilwaith, dylai'r FfDC ystyried sut y gellir gwella'r rhyngwyneb rhwng gwahanol ddulliau teithio a sut mae'r seilwaith trafndiaeth presennol yn gweithredu. Mae defnydd aneffeithlon o'r seilwaith trafndiaeth presennol a chysylltedd gwael rhwng gwahanol ddulliau teithio yn dylanwadu ar ddewisiadau pobl. Ni ddylai'r FfDC ganolbwyntio'n llwyr ar fuddsoddiad newydd.
- Yn aml mae trafndiaeth yn cael ei ystyried ar raddfa fawr. Er enghraifft, cysylltiadau gogledd-de neu gysylltiadau ag Iwerddon. Dylai'r FfDC ystyried sut fyddwn yn teithio o le i le. Mae buddsoddiad sylweddol sy'n gwella cysylltedd gydag Ewrop, er enghraifft, yn cael ei groesawu, ond efallai na fydd hynny'n delio â phroblemau teithio bob dydd pobl.

- Dylai'r FfDC ystyried adfer Camlas Trefaldwyn. Byddai'n golygu addasu priffyrdd cenedlaethol. Byddai buddion adfer y gamlas yn eang, a gallai arwain at fuddion economaidd sylweddol.

## Yr Amgylchedd Naturiol

3.25 Mae gan Gymru ardaloedd eang o dirwedd naturiol o'r safon uchaf, ac yn nhermau tir, mae'n wledig yn bennaf. Mae sut ydym yn defnyddio'r amgylchedd naturiol yn tanategu llawer o fywyd Cymreig. Nodwyd bod bwyd, dŵr, ynni, twristiaeth, dalgylchoedd llifogydd, coedwigaeth, mwynau, amaethyddiaeth ac yn y blaen yn ddibynnol ar ein hamgylchedd naturiol a'u bod yn hanfodol i'n llesiant.



- 3.26 Bu i drafodaethau yn y digwyddiadau gydnabod bod yna rannau o Gymru sy'n gwarantu'r lefel uchaf o warchodaeth rhag canlyniadau negyddol datblygiadau newydd. Fodd bynnag, ochr yn ochr â'r safbwynt hon, cafwyd teimlad clir ei bod yn bwysig meddwl y tu hwnt i warchodaeth yn unig wrth ystyried y FfDC a'r amgylchedd naturiol. Gall datblygiad a reolir yn briodol, yn y lle priodol, helpu i gyflawni amrywiaeth eang o amcanion y Llywodraeth. Mae'n bwysig bod gwahanol ategion yn cael eu canfod er mwyn datrys gwahanol heriau.
- 3.27 Mynegwyd safbwyntiau cryf nad oedd polisïau yn y gorffennol wedi ystyried eu goblygiadau ehangach yn llawn. Cyfeiriwyd at seilwaith ynni, a thyrbinau gwynt yn benodol, fel enghraifft.
- 3.28 Roedd twristiaeth yn fater cyffredin, a phwysigrwydd deall sut y gall gweithredoedd yn yr amgylchedd naturiol effeithio ar y sector twristiaeth.

## Mater Allweddol

- Dylai'r FfDC gydnabod pwysigrwydd seilwaith gwyrdd a chefnogi datblygu rhwydweithiau gwyrdd.
- Mae'r FfDC yn darparu cyfle allweddol i gefnogi datblygu seilwaith gwyrdd; deall y cysylltiadau rhwng nodweddion gwyrdd o'r lefel leol i'r lefel genedlaethol; a sut y gall effeithiau ar un lefel effeithio ar lefel arall.
- Mae'r FfDC yn rhoi cyfle pwysig i feddwl yn strategol am seilwaith naturiol a gwyrdd Cymru a sicrhau bod hynny'n cael ei ystyried yn gydradd â materion megis trafnidiaeth a'r economi.

## Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

- Dylid cydnabod bod yr amgylchedd naturiol gwledig yn adnodd pwysig. Ni ddylid ei warchod er mwyn gwarchod yn unig, a bod yn ddarostyngedig i bolisiau cynllunio cyfyngol. Yn hytrach, dylai'r FfDC gydnabod ei werth fel ased a darparu fframwaith er mwyn iddo gyfrannu at ein hamcanion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.
- Gallai'r FfDC glustnodi ardaloedd ble byddai ffocws ar seilwaith gwyrdd newydd, ardaloedd dalgylch afonydd a chynlluniau amaeth-amgylcheddol, yn hytrach nag ar ddatblygiad traddodiadol, ffisegol.
- Dylai'r FfDC roi cefnogaeth gref i ardaloedd arbennig cydnabyddedig yn cynnwys y parciau cenedlaethol ac AHNE.
- Mae'r dirwedd a'r amgylchedd naturiol yn sylfaenol bwysig i economi twristiaeth Cymru. Dylai'r FfDC sicrhau bod newidiadau i'r dirwedd yn cael eu hasesu a'u rheoli'n ofalus a bod effeithiau negyddol yn cael eu hatal. Gall yr effeithiau fod yn rhai economaidd yn ogystal ag amgylcheddol.




- Mae rheoli'r amgylchedd naturiol a'r dirwedd yn ei hanfod yn gysylltiedig â ffermio. Mae'n rhaid i'r FfDC sicrhau bod yr amcanion sy'n ceisio gwarchod, rheoli a defnyddio'r amgylchedd naturiol wedi'u halinio â'r amcanion ar gyfer amaethyddiaeth.
- Daw bwyd, ynni a dŵr o'n hamgylchedd naturiol. Mae'n rhaid i'r FfDC gydnabod hynny a sicrhau bod y penderfyniadau a wneir yn cefnogi rôl yr amgylchedd naturiol mewn perthynas â bodloni ein hanghenion sylfaenol. Mae'n rhaid i'r system gynllunio fod yn agored i syniadau newydd a ffyrdd o weithio sy'n ategu'r sectorau hyn.
- Mae mynediad i'r amgylchedd, a chyfleusterau ar gyfer hwyluso ei ddefnyddio, yn bwysig. Dylai'r FfDC sicrhau bod amgylcheddau yn hygyrch a defnyddiadwy, yn ogystal â'u gwarchod a'u rheoli.



- Mae'n rhaid i'r FfDC sicrhau bod y system gynllunio yn cefnogi echdynnu a chyflenwi'r mwynau angenrheidiol er mwyn darparu twf ffisegol a seilwaith newydd.
- Dylai'r FfDC ddarparu cyd-destun ar gyfer gwarchod mawnogydd.
- Dylai'r FfDC gynnal rhaglen blannu coed genedlaethol.
- Dylai'r FfDC ystyried yr angen am fwy o gronfeydd dŵr.
- Dylai'r FfDC ystyried strategaeth ar gyfer delio â materion ansawdd aer ar lefel genedlaethol.
- Mae risg llifogydd ac erydu arfordirol yn faterion cenedlaethol pwysig a dylid eu hystyried ar lefel genedlaethol er mwyn hysbysu'r FfDC.
- Dylai'r FfDC gael ei hysbysu gan gynlluniau rheoli'r glannau.
- Mae'r berthynas rhwng yr FfDC a'r NRP a Datganiadau Ardal yn bwysig, ac mae'n rhaid iddynt weithio gyda'i gilydd.

## **Strategaeth Ofodol**

3.29 Yn ogystal â thrafodaethau ar destunau a materion penodol, bu i'r digwyddiadau ysgogi trafodaeth ar natur strategaeth ofodol ar gyfer Cymru. Ar ôl treulio peth amser yn clustnodi'r materion, cafwyd trafodaethau ynghylch sut y gallai cynllun datblygu cenedlaethol ddechrau mynd i'r afael â nhw.



- 3.30 Cyfeiriwyd yn aml at ddatblygu strategaeth ofodol oedd yn cynnwys aneddiadau newydd, er bod eraill wedi awgrymu y byddai materion diboblogi ac adfywio yn anoddach i'w taclo mewn aneddiadau presennol petai hynny'n cael ei wireddu.
- 3.31 Thema gref oedd yr angen i sicrhau bod gwahanol atebion yn cael eu cymhwyso i wahanol ardaloedd. Ystyriwyd nad oedd y system gynllunio wedi gwneud hynny'n ddigonol yn y gorffennol. Cyfeiriwyd at fanwerthu, tai, ynni a thrafnidiaeth fel enghreifftiau o atebion â ffocws trefol yn cael eu cymhwyso i ardaloedd gwledig ble mae natur y materion yn wahanol.
- 3.32 Wrth edrych ar Gymru yn ofodol, roedd yna lawer o ffocws ar ranbarthau. Wrth drafod materion strategol cenedlaethol, gwnaethpwyd hynny'n aml ar lefel ranbarthol ac yn seiliedig ar ddealltwriaeth o sut mae gwahanol

ranbarthau yng Nghymru yn berthynol i'w gilydd. Bydd ystyried rhanbarthau, a rôl yr FfDC wrth ddarparu cyd-destun iddynt, yn bwysig wrth ddatblygu strategaeth ofodol ar gyfer yr FfDC.

- 3.33 Mynegwyd pwysigrwydd strategaeth hyblyg ar draws y digwyddiadau. Teimlwyd bod y gair 'fframwaith' yn un pwysig yn yr enw 'Fframwaith Datblygu Cenedlaethol'. O ystyried pa mor amhosib yw cynllunio ar gyfer pop digwyddiad posibl, dylai strategaeth y FfDC yn hytrach ddarparu cyfeiriad, trosolwg o amcanion, nodau ac egwyddorion allweddol, a chaniatáu hyblygrwydd i gymhwyso gwahanol atebion. Ystyriwyd bod hynny'n hyd yn oed pwysicach yng ngoleuni materion megis Brexit, na ddeallir eu golygiadau'n llawn ar hyn o bryd, a bydd yr angen am atebion newydd yn gritigol.

## **Mater Allweddol**

- Dylai'r FfDC drysori Cymru fel syniad.
- Dylai'r FfDC ystyried aneddiadau newydd.
- Dylai'r FfDC ystyried aneddiadau newydd ar hyd coridorau trafniadaeth allweddol presennol ac arfaethedig.
- Dylai'r FfDC ddiffinio egwyddorion, nid prosiectau.
- Mae'n rhaid i strategaeth y FfDC ddeall Cymru yng nghyd-destun rhanbarthau Lloegr. Dylai hyd yn oed fod yn barod i ddangos rhanbarthau Cymru fel rhan o ranbarthau mwy yn Lloegr, os mai dyna mae'r dystiolaeth yn ei ddangos, a pheidio â chael ei chyfyngu gan y ffin.
- Mae'n rhaid i'r strategaeth ar gyfer y FfDC gael ei hysbysu gan gyfyngiadau topograffig Cymru. Mae hyrwyddo buddsoddiad gogledd-de yn afrealistig. Ni fyddwn fyth yn gallu efelychu cysylltiadau sy'n bodoli rhwng Gogledd Cymru a Manceinion/Lerpwl wrth geisio cysylltu Gogledd Cymru a Chaerdydd.
- Dylai strategaeth y FfDC ganolbwyntio ar daclo'r rhaniad rhwng gogledd a de.
- Dylai'r FfDC ganolbwyntio ar y pyrth i Gymru.
- Dylai'r FfDC ganolbwyntio ar Ddinasoedd ac Ardaloedd Menter.
- Dylai strategaeth y FfDC symud oddi wrth y patrwm twf sydd wedi ei ganoli a chefnogi ymagwedd sy'n seiliedig ar aneddiadau 'canolfan gwasanaethau' gwasgaredig, yn seiliedig ar drefi bach a chanolig sy'n



gallu gwasanaethu poblogaeth wasgaredig yn well.

- Dylai strategaeth y FfDC ystyried Abertawe a Chaerdydd fel canolfannau economaidd a ategir gan well cysylltiadau trafnidiaeth.
- Dylai strategaeth y FfDC gynnwys polisiau gofodol presennol PPC a'r NCT.
- Dylai'r FfDC bennu targed twf economaidd (targed twf GVA) a thai cyffredinol (lefel twf aelwydydd) ar gyfer Cymru. Byddai hynny yn hysbysu strategaeth y FfDC.
- Dylai strategaeth y FfDC fod yn seiliedig ar ddeall hierarchaeth cynlluniau datblygu a sut byddant yn gweithio gyda'i gilydd.
- Dylai'r FfDC ddarparu cyd-destun clir ar gyfer rhanbarthau Cymru yn cynnwys pennu targedau ar gyfer CDSau.




- Dylai'r FfDC glustnodi 4 rhanbarth - Gogledd Cymru, Canolbarth Cymru, Ardal Abertawe ac Ardal Caerdydd.
- Mae'n rhaid i strategaeth y FfDC benderfynu a ydym yn cynllunio ar gyfer beth ydym eisiau i Gymru fod ymhen 20 mlynedd, neu ar gyfer yr hyn fydd Cymru.
- Dylai strategaeth y FfDC fod yn seiliedig ar ddeall hierarchaeth aneddiadau.
- Yn ogystal â ble, dylai strategaeth y FfDC nodi sut y dylai datblygu ddigwydd. Byddai hynny yn helpu i fynd i'r afael ag amcanion llesiant a materion eraill.

- Mae'n rhaid i strategaeth y FfDC benderfynu a fydd yr ymagwedd tuag at gynllunio yng Nghymru yn un o'r top i'r gwaelod neu o'r gwaelod i fyny. Byddai'r gwahanol ddulliau yn arwain at strategaeth ofodol wahanol.
- Mae'n rhaid i strategaeth y FfDC benderfynu a yw'n ysgogydd newid neu'n alluogwr newid.
- Mae'n rhaid i'r strategaeth ar gyfer y FfDC gael ei hysbysu gan faint y prosiectau sy'n gynwysedig .
- Dylai strategaeth y FfDC symud y tu hwnt i ddefnydd tir ac ystyried sectorau eraill y gall y system gynllunio eu cefnogi .
- Mae'n rhaid i strategaeth y FfDC gydnabod datblygiadau annatganoledig a darparu cyd-destun iddynt.
- Ni ddylai strategaeth y FfDC fabwysiadu dull unffurf. Mae angen atebion gwahanol ar gyfer ardaloedd gwahanol. Ni ddylai ymatebion trefol i faterion gael eu cymhwyso i ardaloedd gwledig heb feirniadaeth.
- Mae'n rhaid i strategaeth y FfDC gydnabod bod rhannau o Gymru yn wahanol iawn i'w gilydd. Cydnabyddir bod ardaloedd trefol a gwledig yn wahanol. Rhaid cydnabod hefyd bod yna wahaniaethau sylweddol yn aml rhwng gwahanol rannau gwledig yng Nghymru. Yn yr un modd, gall y materion a'r cyfleoedd yn ardaloedd trefol Cymru amrywio'n sylweddol.
- Mae Cymru yn wahanol i weddill y DU. Yn aml mae hynny'n cael ei gyflwyno'n negyddol (h.y. dangosyddion economaidd). Mae hynny hefyd yn gryfder. Dylai strategaeth y FfDC gofleidio hynny a pheidio ag ofni datblygu ymagwedd neilltuol Gymreig.
- Dylai strategaeth y FfDC fod yn hyblyg. Bydd ymagwedd anhyblyg, nad yw'n gallu ymateb i amgylchiadau newidiol, yn cyfyngu'r system gynllunio ac yn methu â chyflawni amcanion y FfDC.
- Dylai strategaeth y FfDC ystyried yr holl Amcanion Llesiant a pheidio â chanolbwyntio ar rai dethol.

## Cyflenwedd

- 3.34 Thema allweddol a amlygwyd dro ar ôl tro yn y digwyddiadau oedd cyflenwedd. Teimlwyd yn gryf bod yn rhaid gallu cyflawni polisiau a phrosiectau'r FfDC, ac y byddai llwyddiant y FfDC yn cael ei fesur yn erbyn hynny.
- 3.35 Ar draws Cymru pwysleisiwyd yr angen i ddarparu seilwaith i ddechrau. Ystyriwyd bod darparu seilwaith yn rhoi sicrwydd sylweddol ac yn lleihau'r risgiau mewn perthynas â phenderfyniadau buddsoddi. Mae'n darparu cyfeiriad pendant ynghylch ble dylai datblygu ddigwydd. Un feirniadaeth o'r system gynllunio yw ei bod yn penderfynu'n briodol sut y dylai llefydd newid, a hynny wedi ei hysbysu gan seilwaith presennol ac arfaethedig, ond nad oes ganddo reolaeth ar ddarparu seilwaith. Mae problemau yn codi pan fo twf sy'n seiliedig ar welliannau seilwaith yn digwydd, ond nad yw'r seilwaith y bydd yn dibynnu arno yn mynd rhagddo.
- 3.36 Mynegodd rhai bod strategaethau'r Llywodraeth wedi bod yn rhy amwys yn y gorffennol, a'i bod wedi ceisio gwneud gormod o bethau. Dylid taro cydbwysedd rhwng pennu gweledigaeth ar gyfer y dyfodol, sy'n uchelgeisiol, ond sydd hefyd realistig. Er bod uchelgais a dyhead positif i greu newid yn beth da, gall hefyd osgoi'r angen i wneud dewisiadau anodd. Cyfeiriwyd at yr angen i osgoi dull 'rhestr siopa'.
- 3.37 Mynegwyd yr angen i alinio cynlluniau a strategaethau'r Llywodraeth â rhai nad ydynt yn perthyn i'r Llywodraeth. Ystyriwyd bod y broses gynllunio yn fecanwaith oedd wedi ei hen sefydlu ar gyfer dod ag amrywiaeth o wahanol gynlluniau, strategaethau a chronfeydd tystiolaeth at ei gilydd, a chydabuwyd bod gan y FfDC rôl allweddol o ran rhesymoli a mynegi polisiau gofodol y Llywodraeth. Mynegwyd pryderon sylweddol bod yna bosibilrwydd yn barod o ddrysu rhwng y FfDC, y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol a'r Cynllun Adnoddau Cenedlaethol. Yn yr un modd, nodwyd bod yna bosibilrwydd o ddrysu rhwng Cynlluniau Datblygu Strategol a Datganiadau Ardaloedd. Bydd cyflawni amcanion y Llywodraeth yn llwyddiannus yn dibynnu ar amcanion clir a dull cydlynol o'u gwireddu.



## Mater Allweddol

- Mae'n rhaid i gyflenwedd fod yn flaenoriaeth allweddol i'r FfDC. Mae uchelgais yn bwysig, ond gall fod yn rhwystr os na ellir ei wireddu

## Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

- Mae'n rhaid seilio'r FfDC ar ddarparu seilwaith ymlaen llaw a chyn bwrw ymlaen â'r datblygiadau fyd yn ddibynnol arno. Mae'n rhaid archwilio atebion cyllido a chanfod atebion.
- Dylai Llywodraeth Cymru gyllido seilwaith y FfDC ymlaen llaw. Bydd sicrwydd cyflenwed yn cynorthwyo buddsoddiad yn uniongyrchol.
- Dylid defnyddio'r FfDC i wneud penderfyniadau ac i flaenoriaethu ble y byddir yn buddsoddi.
- Dylla'r FfDC ddangos arweiniad ac mae hynny'n cynnwys cyflawni prosiectau.
- Mae'n rhaid i'r FfDC sicrhau bod yna gymhelliannau i adeiladu mewn ardaloedd nad ydynt yn hyfyw ar hyn o bryd, os bydd y strategaeth yn dibynnu ar ddatblygiad yn yr ardaloedd hynny.




- Dylai'r FfDC ddarparu platfform i'r sector preifat fuddsoddi. Nid oes raid iddo ganolbwyntio ar fuddsoddiad y sector cyhoeddus yn unig. Gall greu'r amodau a'r sicrwydd fydd yn galluogi buddsoddiad preifat yng Nghymru.
- Mae'n rhaid i'r FfDC ddarparu gweledigaeth glir gyda ffocws iddi. Bydd hynny'n galluogi i benderfyniadau i fuddsoddi gan y sectorau cyhoeddus gael eu hasesu yn erbyn y cyfraniad maent yn ei wneud tuag at wireddu'r weledigaeth.
- Dylai'r FfDC gael ei hategu gan Gynllun Darparu Seilwaith. Mae'n rhaid i gyllid gynnal y FfDC.
- Mae'n rhaid i'r FfDC gael ei halinio â chynlluniau a strategaethau allweddol eraill. Ar hyn o bryd mae'r Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol, Deliau Dinas, Cynlluniau Datblygu Strategol, Strategaethau Cenedlaethol trawsbynciol newydd y Llywodraeth, y Cynllun Adnoddau Cenedlaethol a'r

Datganiadau Ardaloedd, cynlluniau byrddau iechyd, cynlluniau trafndiaeth ac economaidd, yn cael eu paratoi. Gall alinio cadarn arwain at ganlyniadau. Mae dull heb ei alinio yn lleihau effeithiolrwydd a gall hyd yn oed danseilio cyflawni'r amcanion a nodwyd.

- Dylid defnyddio proses y FfDC i helpu i leihau'r gwrthdaro rhwng gwahanol bolisïau a gofynion Llywodraeth Cymru.
- Gall y FfDC gael rôl o ran darparu fframwaith reoleiddio newydd er mwyn ymateb i newidiadau fydd yn deillio o Brexit .

### Yr Iaith Gymraeg a Diwylliant

3.38 Roedd y drafodaeth ynghylch yr Iaith Gymraeg yn ystyried y rhesymau pam fod siaradwyr Cymraeg yn aml yn gadael yr ardaloedd ble'u magwyd. Nodwyd bod cyfleoedd economaidd yn rheswm allweddol, a nodwyd nad oedd rhai pobl oedd yn dymuno aros yn gallu gwneud hynny oherwydd nad oedd cyflogaeth addas ar gael. Pwynt a fynegwyd droeon yn yr holl ddigwyddiadau oedd yr angen i well cyfleoedd economaidd ganolbwyntio ar yrfaeodd ac nid 'swyddi' yn unig.




### Mater Allweddol

- Mae'n rhaid i'r FfDC gynnwys yr Iaith Gymraeg a Diwylliant.
- Dylai'r FfDC gydnabod y gall technoleg band eang gynorthwyo cymunedau sydd â llai o gysylltiad â gwasanaethau ffisegol, adnoddau diwylliannol ac adloniant. Mae cymunedau sydd â llai o gysylltiad â chyfryngau modern ac adnoddau TG yn llefydd llai deniadol i fyw ynddynt, a gall hynny gyfrannu at ddiboblogi. Gall hynny effeithio'n niweidiol ar ardaloedd Cymraeg.
- Dylai'r FfDC gefnogi twf sy'n creu gyrfaeodd ac nid nifer o swyddi yn unig. Mae hynny'n arbennig o wir yn y Gymru wledig ble mae pobl ifanc yn gorfod gadael er mwyn datblygu eu gyrfaeodd. Gall hynny effeithio'n niweidiol ar ardaloedd Cymraeg.
- Er mwyn cefnogi amcanion yr Iaith Gymraeg, dylai'r FfDC gefnogi cyfleoedd economaidd mewn ardaloedd Cymraeg. Pobl yn gadael i chwilio am waith yw un o'r prif broblemau sy'n effeithio ar yr iaith.
- Dylai strategaeth y FfDC gydnabod bod diwylliant Cymreig yn ehangach na'r iaith a'r amgylchedd hanesyddol. Mae gan y cymoedd, er enghraifft,

## Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

dreftadaeth ddiwylliannol unigryw.

- Er mwyn cefnogi'r laith Gymraeg, mae'n rhaid i'r FfDC gefnogi tyfu'r economi o Gymru ei hun yn hytrach na dibynnu ar fewnfuddsoddiad nad oes ganddo wreiddiau yng Nghymru yn y pen draw.
- Yn ofodol, nid yw'n eglur beth all y FfDC ei wneud i gefnogi'r laith Gymraeg.



Mae'r graffeg yn dangos y materion allweddol a godwyd yn y digwyddiadau ymgysylltu

## **Atodiadau**

- A. Strwythur Digwyddiadau Ymgysylltu**
- B. Mynychwyr**



## **Atodiad A**

### **Strwythur y Digwyddiadau Ymgysylltu**

- **Pecyn Ymgysylltu cyn y Digwyddiad**
- **Sleidiau'r Cyflwyniad**

## **Fframwaith Datblygu Cenedlaethol**

### **Pecyn Ymgysylltu cyn y Digwyddiad**

Ionawr / Chwefror 2017

## **1 Cyflwyniad**

Mae'r pecyn hwn yn cefnogi Digwyddiadau Ymgysylltu'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) y mae Llywodraeth Cymru yn eu cynnal ym mis Ionawr a Chwefror 2017. Y digwyddiadau hyn yw'r gweithgareddau ymgysylltu cyntaf i'w cynnal wrth ddatblygu'r FfDC ac mae croeso i bawb gyfrannu ato.

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys gwybodaeth am yr FfDC a'r gwaith sydd wedi'i wneud hyd yn hyn. Rhwch ystyriaeth i'r wybodaeth yn y pecyn hwn cyn y digwyddiad.

## **2 Beth yw'r FfDC?**

Bydd yr FfDC yn gynllun datblygu cenedlaethol a fydd yn para 20 mlynedd. Bydd yn disodli Cynllun Gofodol presennol Cymru pan gaiff ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2020. Rôl yr FfDC yw:-

- nodi lle y mae angen twf a seilwaith o bwys cenedlaethol a sut y gall y system gynllunio – ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol – gyflawni hyn;
- pennu cyfeiriad ar gyfer Cynlluniau Datblygu Lleol a Strategol a hwyluso'r gwaith o wneud penderfyniadau ynghylch Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol;
- ategu Polisi Cynllunio Cymru, sy'n nodi polisïau cynllunio Llywodraeth Cymru ac yn rhoi'r cyd-destun ar gyfer cynllunio defnydd tir; ac
- ategu strategaethau economaidd, trafndiaeth, amgylcheddol, tai, ynni a diwylliannol cenedlaethol a sicrhau bod y system gynllunio'n gallu eu cyflawni.

## **3 Beth yw'r amserlen ar gyfer paratoi'r FfDC?**

Mae'r amserlen a'r broses o baratoi'r FfDC wedi'u nodi yn y Datganiad ynghylch Ymgysylltu â'r Cyhoedd. Mae hyn hefyd yn cynnwys gwybodaeth am sut rydym am ymgysylltu â phobl. Gallwch ei weld yma:

<http://gov.wales/topics/planning/national-development-framework-for-wales/statement-of-public-participation/?skip=1&lang=cy>

## **4 Pam rydym yn cynnal y digwyddiad hwn?**

Mae tri phrif reswm:-

1. Rhoi cyfle i ni esbonio'r FfDC ac ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych;
2. Rhoi cyfle i chi leisio'r hyn a ddylai fod yn brif ystyriaethau i'r FfDC a sut y dylid mynd i'r afael â nhw;
3. Esbonio sut y gallwch gymryd rhan wrth i'r broses symud yn ei blaen, yn enwedig yn y Cais am Dystiolaeth a Phrosiectau presennol.

## **5 Beth yr hoffem i chi ei gyfrannu yn y digwyddiad?**

Megis dechrau paratoi'r FfDC ydym ni. Cyn i ni gyrraedd cam ffurfiol i'r FfDC, hoffem glywed eich barn ar yr hyn yw'r materion cenedlaethol sy'n allweddol i'r system gynllunio yng Nghymru. Bydd y digwyddiad anffurfiol hwn yn ein helpu i nodi'r hyn y dylai'r FfDC ei wneud a'r blaenoriaethau ar gyfer y system gynllunio. Nid oes un ateb cywir ac rydym yn awyddus i glywed sawl safbwynt gwahanol.

Byddwn yn gofyn i bobl yn y digwyddiadau i nodi, ar fapiau Cymru, yr hyn sy'n faterion allweddol iddynt ac i ystyried, yn ofodol, sut y gallent fynd i'r afael â nhw; ac i gael gwybodaeth am brosiectau a allai gael eu cynnwys yn yr FfDC.

## **6 Sut y bydd y cyfraniadau yn y digwyddiadau'n cael eu defnyddio?**

Caiff cofnod o'r Digwyddiadau Ymgysylltu ei baratoi a fydd yn crynhoi'r digwyddiadau a gynhelir ledled Cymru a'r materion a godir. Byddwn hefyd yn cyhoeddi'r mapiau a gesglir yn y digwyddiadau i ddangos y farn a fynegir ledled Cymru.

Bydd y Cofnod o'r Digwyddiadau'n rhan o sylfaen dystiolaeth yr FfDC ac yn helpu i lywio Papur Materion, Opsiynau a'r Opsiwn a Ffefrir o ran yr FfDC a gaiff ei baratoi a'i ymgynghori arno yn hwyrach eleni.

## **7 Sut mae'r gwaith ymgysylltu hwn yn ymwneud â gwaith ymgysylltu blaenorol Llywodraeth Cymru?**

Wrth baratoi'r FfDC, byddwn yn tynnu ar waith polisi a strategaeth arall y Llywodraeth. Bydd yr FfDC yn adeiladu ar gyfraniadau y mae rhanddeiliaid eisoes wedi eu gwneud ledled Cymru ar, er enghraifft, waith fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Nid ydym yn bwriadu mynd dros yr un hen waith na dechrau sgwrs newydd amdano. Yn lle hynny, rydym am barhau â'r sgwrs ac ystyried, ar y cyd â chi, y rôl y gall y system gynllunio ei chwarae wrth gyrraedd nodau.

## **8 A fydd cyfleoedd eraill i gymryd rhan?**

Bydd. Bydd digwyddiadau ymgysylltu ac ymgynghoriadau ffurfiol yn cael eu cynnal yn y dyfodol.

Rydym yn cydnabod y bydd y Digwyddiadau Ymgysylltu'n canolbwyntio ar drosolwg eang o ystyriaethau. Mae'r Cais am Dystiolaeth a Phrosiectau'n gyfle i gyflwyno ymateb llawnach â thystiolaeth.

Mae rhagor o wybodaeth am y Cais am Dystiolaeth a Phrosiectau ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:

<http://gov.wales/topics/planning/national-development-framework-for-wales/call-for-evidence-and-projects/?skip=1&lang=cy>

## **9 A fydd yn rhaid cynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol o'r FfDC?**

Bydd. Rydym yn bwriadu cynnal yr asesiadau hyn (ac asesiadau eraill gan gynnwys iechyd ac anghydraddoldeb er enghraifft) mewn ffordd integredig i sicrhau bod ystod eang o ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol yn cyfrannu at ddatblygiad yr FfDC. Bydd y broses hon yn ein helpu i ddeall y berthynas rhwng y gwahanol feysydd hyn, nodi'r risgiau y gallai gweithredu mewn un maes eu peri mewn maes arall a manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i gyflwyno manteision ar draws ystod o feysydd polisi. Bydd angen cynnal Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd o'r FfDC.

## **10 Ymhle y gallaf gael rhagor o wybodaeth am y FfDC?**

Gwefan Llywodraeth Cymru yw'r ffynhonnell orau o wybodaeth <http://llyw.cymru>.

Gallwch gysylltu â thîm y FfDC:-

Rhif Ffôn: 0300 025 3744 neu 0300 025 6657

E-bost: [FfDC@cymru.gsi.gov.uk](mailto:FfDC@cymru.gsi.gov.uk)

## **11 Agenda**


Bydd yr e-bost a gewch yn cadarnhau a fyddwch yn dod i'r digwyddiad bore neu brynhawn.

### **Digwyddiad Rhanddeiliaid y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol**

|              |                                                                               |
|--------------|-------------------------------------------------------------------------------|
| <b>13:30</b> | Cofrestru, paned                                                              |
| <b>14:00</b> | Cynnal a Chadw a Diben y Dydd                                                 |
| <b>14:05</b> | Cyflwyniad Llywodraeth Cymru: Cyflwyniad i'r FfDC                             |
| <b>14:15</b> | Cyflwyniad i'r Gweithdy                                                       |
| <b>14:20</b> | Gweithdy: Beth yw ystyriaethau'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol?            |
| <b>15:10</b> | Adborth o'r Gweithdy                                                          |
| <b>15:35</b> | Egwyl Fer a Phaneli Wal                                                       |
| <b>15:45</b> | Siaradwr Llywodraeth Cymru: Cais am Dystiolaeth a Phrosiectau a'r Camau Nesaf |
| <b>15:50</b> | Cwestiynau                                                                    |
| <b>16:00</b> | Digwyddiad yn dod i ben                                                       |

Bydd swyddogion a siaradwyr Llywodraeth Cymru ar gael ar gyfer trafodaethau anffurfiol / cwestiynau ar ôl i'r digwyddiad ddod i ben.

## **Sleidiau'r Cyflwyniad**



### **Rhan 1**

### **Cynnal a Chadw a Diben y Dydd**



## **Cynnal a Chadw**

- Toiledau
- Allanfa dân
- Tynnu Lluniau
- Staff Llywodraeth Cymru

## **Diben y Dydd**

1. Rhoi gwybodaeth i chi am yr FfDC
2. Gwrando ar eich barn am faterion sy'n allweddol i'r FfDC
3. Esbonio sut i gyflwyno tystiolaeth a manylion prosiectau posib
4. Ateb eich cwestiynau

## Rhan 2

### Cyflwyniad i'r FfDC

## Y Cyd-destun

*"Er mwyn mynd i'r afael â'r materion sydd o'n blaen, mae angen **ffyrdd newydd o weithio** gan gynnwys rhaglenni cydgysylltiedig sy'n atgyfnerthu ac yn adeiladu ar yr hyn y mae pobl a chymunedau yn ei wneud eu hunain..... byddwn yn gweithio ar draws ffiniau traddodiadol i gyflawni ein blaenoriaethau.*

*Rhaid i ymddygiad cyfrifol ac ymarferoldeb cyllidol dywys ein gwaith. Mae cyni Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn parhau, ac mae pob dadansoddiad gwrthrychol o effaith bosibl gadael yr Undeb Ewropeaidd yn dweud y dylem baratoi i weld yr economi'n crebachu. Felly nawr yn fwy nagerioed mae bod mewn Llywodraeth yn golygu gwneud **dewisiadau**, ac fe fydd rhai anodd iawn o'n blaen."*

**Carwyn Jones**  
**Prif Weinidog Cymru**

## **Beth yw'r FfDC?**

- Cynllun datblygu defnydd tir cenedlaethol 20 mlynedd sy'n nodi polisiau Gweinidogion Cymru ar gyfer datblygu a defnyddio tir.
- Rhoi'r gallu i nodi Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol
- Rhoi cyfeiriad i gynlluniau strategol a datblygu lleol

## **Pam mae'n bwysig?**

- Sail i benderfyniadau a wneir yn y dyfodol
- Datblygiadau cenedlaethol mawr
- Rhaid i gynlluniau datblygu strategol a lleol gydymffurfio
- Offeryn allweddol ar gyfer cefnogi a chydlynu polisiau'r Llywodraeth.
- Nodau Llesiant

## **Ble'r ydym ni arni nawr?**

- Dechrau'r broses
- Casglu gwybodaeth sy'n nodi problemau
- Arfarniad o Gynaliadwyedd
- Nodi prosiectau posib
- Ailddrafftio PPW i adlewyrchu DLICD a'r FfDC
- Ymgynghoriad yn hydref 2017 ar Faterion ac Opsiynau

**Rhan 3**  
**Gweithdai**

## **Beth yw'r materion allweddol?**


- Ffyrdd newydd o weithio
- Dewisiadau
- Er enghraifft:-
  - Demograffeg
  - Datgarboneiddio
  - Cysylltedd
  - Brexit?

## **Gweithdy**

### **Beth yw'r materion sy'n allweddol i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol?**

- Dim atebion anghywir.
- Meddyliwch am yr agweddau a'r dimensiwn gofodol ar raddfa genedlaethol.
- Er enghraifft, os ydych yn credu y dylai'r FfDC hyrwyddo cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar raddfa cenedlaethol, ble dylai hyn ddigwydd?

## Beth yw'r materion sy'n allweddol i'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol?



## Gweithdy

- Trafodwch y materion yn eich grwpiau
- Siaradwch am brosiectau posib
- Rhowch eich syniadau chi ar y daflen A4
- Fel grŵp defnyddiwch y map A1 i ddangos ...

Y prif faterion a prosiectau blaenoriaethol

Adborth – tri prif beth

## **Rhan 4**

### **Egwyl Fer a Phaneli Wal**

## **Rhan 5**

### **Cais am Dystiolaeth a Phrosiectau, a'r Camau Nesaf**

## Cais am Dystiolaeth a Phrosiectau ar gyfer yr FfDC

- Mae'r cyfnod gwneud cais yn dod i ben ar **7 Mawrth 2017**
- Mae manylion ar wefan Llywodraeth Cymru
- Prosiectau Cenedlaethol
- 7 Nod Llesiant

## Amserlen

| Dyddiad              | Cam                                                                                                  |
|----------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| 7 Mawrth 2017        | Cyfnod gwneud Cais am Dystiolaeth a Phrosiectau yn dod i ben                                         |
| Mawrth / Ebrill 2017 | Ymgynghori ar Arfarniad o Gynaliadwyedd/Aseid Amgylcheddol Strategol yr Adroddiad Owmpasu            |
| Medi 2017            | Ymgynghori ar Faterion, Opsiynau ac Opsiynau a Ffeirir ar gyfer yr FfDCa'r Arfarniad o Gynaliadwyedd |
| Ionawr 2019          | Ymgynghori ar yr FfDC Drafft a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd                                           |
| Hydref 2019          | Y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried yr FfDC                                                         |
| Mawrth 2020          | Cyhoeddi'r FfDC                                                                                      |



**Rhan 6**  
**Cwestiynnau**

## **Atodiad B**

### **Mynychwyr**

## **Llanelli**

|                                               |                              |
|-----------------------------------------------|------------------------------|
| Anderson Planning and Development Ltd         | Home Builders Federation     |
| Asbri Planning                                | Innogy Renewables UK Ltd     |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | Persimmon Homes              |
| Coleg Sir Gar                                 | Prifysgol Aberystwyth        |
| Cyfoeth Naturiol Cymru                        | RKS West Wales               |
| Cymdeithas yr Iaith                           | Taylor Wimpey                |
| Cyngor Cymuned y Abergwili                    | TUC Cymru                    |
| Cyngor Cymuned y Llandyfaelog                 | Un Llais Cymru               |
| Cyngor Cymuned y Llanllawddog                 | Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig |
| Cyngor Cymuned y Pelenna                      |                              |
| Cyngor Sir Penfro                             |                              |
| Cyswllt Amgylchedd Cymru                      |                              |
| Dinas a Sir Abertawe                          |                              |
| Federation of Master Builders Cymru           |                              |
| GVA                                           |                              |

## Caerdydd (am)

|                                                   |                                                       |
|---------------------------------------------------|-------------------------------------------------------|
| Asbri Planning                                    | Cyngor Tref y Barri                                   |
| Barratt Homes                                     | Federation of Small Businesses                        |
| Barton Willmore                                   | Glandwr Cymru                                         |
| Cyfoeth Naturiol Cymru                            | Grŵp Cyswllt Tirlun De Cymru                          |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent            | Nathan Lichfield and Partners                         |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili                | Planning and Environment Bar Association              |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd                | Redrow                                                |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot | Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig             |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful           | Taylor Wimpey                                         |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr       | Tidal Lagoon Power                                    |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf        | Un Llais Cymru                                        |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen                  | Women Connect First                                   |
| Cyngor Cymuned y Llandough                        | WYG                                                   |
| Cyngor Cymuned y Sain Ffagan                      | Ysgol y Gyfraith a Gwleidyddiaeth, Prifysgol Caerdydd |
| Cyngor Dinas a Sir Caerdydd                       |                                                       |
| Cyngor Sir Fynwy                                  |                                                       |

## Caerdydd (pm)

|                                        |                                 |
|----------------------------------------|---------------------------------|
| Age Cymru                              | Cyngor Dinas a Sir Caerdydd     |
| Arcadis                                | Cyngor Swydd Henffordd          |
| ARUP                                   | Cyngor Tref y Cas-gwent         |
| Barratt Homes                          | Dwr Cymru                       |
| Boyer Planning                         | Geldards LLP                    |
| Coleg Caerdydd a'r Fro                 | GIG Cymru                       |
| Coleg y Cymoedd                        | Prifysgol Metropolitan Caerdydd |
| Cymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil | Vattenfall UK                   |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru      | Y Gymdeithas Fictoraidd         |
| Cymorth Cynllunio Cymru                | Yr Arolygiaeth Gynllunio        |
| Cyngor Bro Morgannwg                   |                                 |
| Cyngor Cymuned y Langstone             |                                 |

## Cyffordd Llandudno

|                                  |                                            |
|----------------------------------|--------------------------------------------|
| Anwyl Homes                      | Cyngor Wreccsam                            |
| Awdurdod Glo                     | Cynllun Efe                                |
| Beech Developments               | Dwr Cymru                                  |
| Chester West and Chester Council | Engie                                      |
| Coleg Cambria                    | Grŵp Llandrillo Menai                      |
| Cyfoeth Naturiol Cymru           | Gwasanaeth Cynllunio Archeaolegol Gwynedd  |
| Cyngor Conwy                     | Jan Tyrer Planning                         |
| Cyngor Cymuned y Coedpoeth       | Redrow                                     |
| Cyngor Gwynedd                   | Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig  |
| Cyngor Sir Ddinbych              | Unique / Transforum / The Sibyls           |
| Cyngor Sir y Fflint              | Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig               |
| Cyngor Sir Ynys Môn              | Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch |
| Cyngor Tref y Llandudno          |                                            |
| Cyngor Tref y Rhuddlan           |                                            |
| Cyngor Tref y Abergele           |                                            |
| Cyngor Tref y Bae Colwyn         |                                            |

## Y Trallwng

Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyngor Cymuned y Abermiwl gyda Llandysul

Cyngor Cymuned y Banwy

Cyngor Sir Powys

Cyngor Swydd Henffordd

Cyngor Tref y Drenewydd a Llanllwchaearn

Cyngor Tref y Trefaldwyn

Cyswllt Amgylchedd Cymru

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mineral Products Association

Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru

Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng  
Nghymru

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys

Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig

